IECHYD A GOFAL GWLEDIG CYMRU
RURAL HEALTH AND CARE WALES

# Grŵp Rhanddeiliaid Iechyd a Gofal Gwledig Cymru

# Cylch Gorchwyl

o fis Ebrill 2023 ymlaen

| | |
|---|---|
| **DIBEN** | Bydd Grŵp Rhanddeiliaid Iechyd a Gofal Gwledig Cymru (IGGC) yn gwneud y canlynol:<br>1. Cynnig cyngor, arweiniad ac arbenigedd i lywio strategaeth a chyfeiriad IGGC<br>2. Datblygu cynlluniau strategol ar gyfer IGGC, gan amlinellu Rhaglen Waith glir sy'n gyson â'i Weledigaeth, ei Nodau a'i Amcanion, i'w chymeradwyo gan y Grŵp Gweithredol Cynllunio a Chyflawni<br>3. Sicrhau bod cyllid digonol ar gael i IGGC gyflawni'r camau gweithredu a nodir ganddo<br>4. Goruchwylio'r gyllideb ddynodedig ar gyfer IGGC<br>5. Sicrhau bod adnoddau anariannol digonol (sy'n cynnwys adnoddau staff) yn cael eu dyrannu i IGGC i'w alluogi i gyflawni ei Raglen Waith a'r targedau a nodir ganddo<br>6. Cynrychioli IGGC a chynnal ei Weledigaethau/Nodau, gan geisio dylanwadu ar bolisi cenedlaethol ym maes Iechyd a Gofal Gwledig<br>7. Cysylltu a chyfathrebu â rhanddeiliaid yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol ynghylch materion yn ymwneud ag Iechyd a Gofal Gwledig<br>8. Cychwyn, arwain a hwyluso astudiaethau ymchwil a gwerthuso perthnasol i lywio ac annog arloesedd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol gwledig |

| | |
|---|---|
| | 9. Darparu gwybodaeth a chyngor ar faterion iechyd a gofal gwledig, yn enwedig mewn perthyna â hyfforddiant ac addysg, modelau gwasanaeth newydd ac arferion arloesol<br>10. Cefnogi'r broses o integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a hyrwyddo proses ddi-dor o ddarparu gwasanaethau, gan adlewyrchu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| **AELODAETH** | **Cadeirydd:** Peter Skitt, Arweinydd Rhaglen Cyd-Bwyllgor Iechyd a Gofal y Canolbarth<br><br>**Is-gadeirydd:** i'w enwebu gan Grŵp Rhanddeiliaid IGGC<br><br>**Aelodaeth** (cynrychiolwyr o blith):<br><br>• Byrddau Iechyd<br>o Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, y Prif Weithredwr<br>o Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, y Prif Weithredwr<br>o Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, y Prif Weithredwr<br>o Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, y Prif Weithredwr<br><br>• Sefydliadau Addysg Uwch<br>o Coleg Cymraeg Cenedlaethol, y Prif Weithredwr<br>o Prifysgol Aberystwyth, yr Is-ganghellor<br>o Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, yr Is-ganghellor<br>o Prifysgol Caerdydd, yr Is-ganghellor<br>o Prifysgol Bangor, yr Is-ganghellor<br>o Prifysgol Abertawe, yr Is-ganghellor<br><br>• Awdurdodau Lleol<br>o Cyngor Sir Ceredigion, y Prif Weithredwr<br>o Cyngor Sir Powys, y Prif Weithredwr<br>o Cyngor Sir Gwynedd, y Prif Weithredwr<br><br>• Cynrychiolaeth Gofal Sylfaenol<br>o Cynrychiolydd meddygon teulu<br>o Cynrychiolydd Ysbytai Cymunedol<br><br>• Cynrychiolaeth Gofal Eilaidd<br>o Cynrychiolydd Ysbyty Cyffredinol Bronglais<br><br>• Cynrychiolydd Gofal Trydyddol<br><br>• Cadeirydd Grŵp Cynghori Clinigol Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru |

| | |
|---|---|
| | • Cynrychiolaeth yr Hwb Ymchwil, Arloesedd a Gwella<br>  ○ Cynrychiolydd Gogledd Cymru<br>  ○ Cynrychiolydd Powys<br>  ○ Cynrychiolydd Gorllewin Cymru<br><br>• ~~Cynrychiolaeth y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) – *Cynrychioloydd o Llais*~~<br>  ~~○ Cynrychiolydd CIC Ceredigion~~<br>  ~~○ Cynrychiolydd CIC Powys~~<br>  ~~○ Cynrychiolydd CIC Gwynedd~~<br><br>• Cynrychiolwyr y Cyhoedd/Cleifion<br>  ○ Ceredigion<br>  ○ Powys<br>  ○ De Gwynedd<br><br>• Unigolion enwebedig eraill a gynigir gan Grŵp Rhanddeiliaid IGGC ei hun a/neu Fwrdd Rheoli Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru/y Grŵp Gweithredol Cynllunio a Chyflawni<br><br><u>Yn Bresennol:</u><br><br>• Pennaeth IGGC<br>• Swyddog(ion) Datblygu IGGC<br><br>Er y bydd yr aelodau yn gwneud pob ymdrech i fod yn bresennol, gall unrhyw aelod enwebu dirprwy i fod yn bresennol yn ei le os na fydd ar gael i fod yn bresennol ei hun. Tybir bod gan ddirprwyon awdurdod dirprwyedig llawn yr aelodau y maent yn eu cynrychioli.<br><br>Gall cynrychiolwyr ychwanegol o blith aelod-sefydliadau gael eu gwahodd i fod yn bresennol, lle bo hynny'n briodol ac yn amodol ar gytundeb y Cadeirydd. |
| **DYLETSWYDDAU** | • Datblygu cynlluniau strategol/busnes a Rhaglen Waith ar gyfer IGGC, sy'n gyson â'i Weledigaeth, ei Nodau a'i Amcanion, a monitro cynnydd, gan roi adborth ar y broses o gyflawni canlyniadau. Rhoddir y Rhaglen Waith flynyddol ac unrhyw gynlluniau strategol gerbron y Grŵp Gweithredol Cynllunio a Chyflawni/Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru er mwyn eu cymeradwyo'n derfynol<br>• Cytuno ar gyllideb flynyddol arfaethedig a sicrhau bod cyllid a chymorth digonol ar gael i IGGC fodloni ei dargedau o ran cyflawni. Rhoddir y gyllideb gerbron y Grŵp Gweithredol Cynllunio a |

| | |
|---|---|
| | Chyflawni/Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru er mwyn ei chymeradwyo'n derfynol<br>• Ystyried a thrafod dulliau arloesol sy'n ofynnol i fynd i'r afael â hyfforddiant, addysg ac ymchwil ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghanolbarth Cymru<br>• Dylanwadu ar gyrff proffesiynol a Sefydliadau Addysg Uwch/Bellach i sicrhau bod rhaglenni addysg a hyfforddiant strwythuredig ar gael i feddygon, deintyddion, nyrsys, fferyllwyr, gweithwyr proffesiynol perthynol i ofal iechyd, parafeddygon, optometryddion a staff gofal cymdeithasol, er mwyn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth iddynt i ddarparu gofal o ansawdd uchel mewn ardaloedd gwledig<br>• Archwilio a manteisio ar arbenigedd mewn aelod-sefydliadau a fydd yn creu llwyfan ymchwil cadarn i ddarparu sail dystiolaeth ar gyfer ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol gwledig<br>• Lledaenu a gweithredu canlyniadau ymchwil a wneir i iechyd a gofal gwledig mewn aelod-sefydliadau, lle bo hynny'n ymarferol<br>• Archwilio manteision posibl ehangach IGGC yng Nghanolbarth Cymru, Cymru, y Du ac ar y llwyfan rhyngwladol<br>• Cynrychioli IGGC, gan geisio dylanwadu ar bolisi cenedlaethol ym maes Iechyd a Gofal Gwledig<br>• Cysylltu a chyfathrebu â rhanddeiliaid yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol ynghylch materion yn ymwneud ag Iechyd a Gofal Gwledig |
| **CYFARFODYDD** | **Cworwm**<br><br>Bydd cworwm Grŵp Rhanddeiliaid IGGC yn cynnwys naill ai'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd, ynghyd ag o leiaf chwech o blith yr aelodaeth enwebedig (gan gynnwys dirprwyon lle rhoddwyd rhybudd ymlaen llaw o'u presenoldeb).<br><br>**Papurau**<br><br>Bydd yr agenda yn seiliedig ar weithredoedd y cyfarfod blaenorol, materion sy'n codi a cheisiadau gan Grŵp Rhanddeiliaid IGGC, neu waith a gomisiynir gan y Grŵp Gweithredol Cynllunio a Chyflawni a/neu Gyd-bwyllgor Canolbarth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br><br>Bydd yr agenda a'r papurau yn cael eu dosbarthu bum niwrnod cyn y cyfarfod, yn ddelfrydol, ond dim hwyrach na thridiau cyn y cyfarfod.<br><br>Bydd y pwyntiau gweithredu yn cael eu dosbarthu cyn pen saith niwrnod yn dilyn y cyfarfod. Rhaid i'r aelodau anfon gwelliannau ymlaen cyn pen y |

| | |
|---|---|
| | saith niwrnod nesaf, a bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn cytuno ar y fersiwn derfynol.<br><br>**Amlder y Cyfarfodydd**<br><br>Bydd Grŵp Rhanddeiliaid IGGC yn cwrdd pob tri mis. Trefnir cyfarfodydd ychwanegol, fel y pennir gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.<br><br>Gall Grŵp Rhanddeiliaid IGGC drefnu gweithdai, yn ôl y gofyn, i'w alluogi i ymgysylltu'n ehangach a datblygu ei amcanion penodol.<br><br>Y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, mewn trafodaeth â Phennaeth IGGC, a fydd yn pennu amser a lleoliad cyfarfodydd Grŵp Rhanddeiliaid IGGC, ynghyd â gweithdrefnau cyfarfodydd o'r fath. Bydd cyfleusterau fideogynadledda a chynadledda clywedol ar gael yn y cyfarfodydd. |
| **ADRODD** | Mae Grŵp Rhanddeiliaid IGGC yn atebol i'r Grŵp Gweithredol Cynllunio a Chyflawni/i Gyd-bwyllgor Canolbarth Cymru o ran ei berfformiad yn cyflawni'r swyddogaethau a nodir yn y cylch gorchwyl hwn.<br><br>Bydd Grŵp Rhanddeiliaid IGGC yn adrodd yn ffurfiol, yn rheolaidd ac mewn modd amserol i'r Grŵp Gweithredol Cynllunio a Chyflawni/i Gyd-bwyllgor Canolbarth Cymru a rhanddeiliaid allweddol am ei weithgarwch a'i argymhellion, ac yn tynnu eu sylw penodol at unrhyw fater arwyddocaol sy'n cael ei ystyried.<br><br>Gall Grŵp Rhanddeiliaid IGGC sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen i gyflawni agweddau penodol ar ei fusnes ar ei ran. |
| **ADOLYGU** | Bydd yr aelodaeth a'r cylch gorchwyl yn destun adolygiadau parhaus wrth i Grŵp Rhanddeiliaid IGGC ddatblygu, a bydd unrhyw newidiadau yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan y Grŵp Gweithredol Cynllunio a Chyflawni/Gyd-bwyllgor Canolbarth Cymru. |